# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-31-2005):

### Dyddiad y Cyfarfod: 6 Rhagfyr 2005

### Amser y Cyfarfod: 9:30 am

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Glyn Davies (Cadeirydd) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Laura Jones | Dwyrain De Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Richard Miltiadis | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Janice Gregory, Rosemary Butler, Christine Gwyther

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf – LEG(2)-30-2005

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2005.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Nododd y Cadeirydd bod cyfle arall i'r Aelodau nad oeddent wedi ymweld â'r adeilad newydd ar 22 Tachwedd wneud hynny yn syth ar ôl y cyfarfod.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

### 4.1 LC1191 - Rheoliadau Tir Cynnal (Cymru) 2006

Nodwyd bod angen rhoi'r gair "needs" ym mrawddeg olaf y paragraff "Observations" yn y Saesneg er mwyn diwygio'r adroddiad drafft fel a ganlyn: "However, if amending legislation is made at some time in the future, then the Schedule needs to be redrafted". Camau i'w Cymryd: Cynghorwyr Cyfreithiol/ Clerc. Yn amodol ar wneud y cywiriad hwn, cytunodd y Pwyllgor y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.2 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

### LC1187 - Gorchymyn (Diddymu) Bwrdd Henebion Cymru 2006

### LC1188 - Gorchymyn (Diddymu) Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru 2006

### LC1189 - Rheoliadau Hawliau Tramwy Cyhoeddus (Cofrestrau) (Cymru) 2006

### LC1190 - Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2006

### Camau i'w cymryd

### 4.1 LC1191 - Rheoliadau Tir Cynnal (Cymru) 2006

Gofynnwyd i'r Clerc osod y gair "needs" ym mrawddeg olaf y paragraff "Observations" yn y Saesneg er mwyn diwygio'r adroddiad drafft fel a ganlyn: "However, if amending legislation is made at some time in the future, then the Schedule needs to be redrafted".

## Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 10 Ionawr 2006.